



FFURFLEN RHOI GWYBOD AM DDIGWYDDIAD ATEBOLRWYDD

NODIADAU CYFARWYDDYD

Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen y nodiadau cyfarwyddyd hyn ac yn eu deall yn llawn cyn llenwi'ch ffurflen hawlio.

Allaf i wneud hawliad?

Er mwyn gwneud hawliad, bydd angen ichi allu profi y bu'r Cyngor ar fai YN GYFREITHIOL. Nid oes hawl awtomatig i gael iawndal ac er y bu digwyddiad nid yw hyn yn golygu o angenrheidrwydd bod y Cyngor ar fai.

Yr hyn y bydd angen i CHI ei ddarparu er mwyn gwneud hawliad

Mae gofyniad cyfreithiol arnoch CHI i brofi'ch colled, ac mae dyletswydd gyfreithiol arnoch chi i leihau'ch colledion i'r eithaf. RHAID darparu'r wybodaeth ganlynol:

1. Ffeithiau clir a manwl yr achos, gan gynnwys amser a dyddiad y digwyddiad a'r union fan lle digwyddodd.
2. Manylion eich anaf/anafiadau a/neu fanylion unrhyw ddifrod i eiddo gyda ffotograffau ohono/ohonynt
3. Manylion llawn unrhyw golled ariannol a gafwyd, gan gynnwys derbynebaw gwreiddiol (os ydynt ar gael) ac amcanbrisiau am atgyweirio unrhyw eiddo a ddifrodwyd neu gael eiddo arall yn ei le. (***Nodwch nad oes setliad newydd yn lle hen ar hawliad atebolrwydd. Bydd y setliad yn cymryd i ystyriaeth oed a chyflwr yr eitem wreiddiol a'r draul arni, yn ogystal â faint y taloch amdani'n wreiddiol.***)
4. Manylion llawn lleoliad y ddamwain, gan gynnwys cynllun o leoliad y digwyddiad, ynghyd â ffotograffau yn nodi nid yn unig y nam honedig ei hun, ond golwg gyffredinol o'r man gan gynnwys y nam. Os yw ar y briffordd, rhowch rif y golofn golau agosaf. Dylech ddarparu map o leoliad y digwyddiad, os oes modd, sy'n dangos yr union leoliad lle bu'r digwyddiad.

HEB Y WYBODAETH HON NI ELLIR PROSESU'CH CAIS

Beth fydd yn digwydd ar ôl imi gyflwyno fy hawliad?

Bydd yr adran Yswiriant a Risg yn cydnabod eich hawliad cyn pen 24 awr waith ar ôl iddo ddod i law, ac mae'n bosibl y caiff eich hawliad ei anfon at swyddogion trin hawliadau, yswirwyr neu gyfreithwyr allanol y Cyngor, y rhoddir eu manylion yn ein llythyr cydnabod. Bydd ein swyddogion trin hawliadau'n cydnabod bod yr hawliad wedi dod i law cyn pen 5 diwrnod gwaith.

Bydd yr adran Yswiriant a Risg yn ymchwilio i'ch honiadau ac yn adrodd i'r swyddogion trin hawliadau, yswirwyr neu gyfreithwyr, neu'n adrodd yn ôl i chi yn uniongyrchol gyda'u canfyddiadau. Mae'r gyfraith yn caniatáu hyd at 3 mis i ymchwilio i hawliad anaf personol, ac er nad oes terfyn ar hawliadau eiddo, byddwn yn ceisio rhoi penderfyniad ar atebolrwydd cyn pen 3 mis.

Y Canlyniad

Ar ôl i'r holl dystiolaeth gael ei chasglu a'i hasesu, byddwn ni neu ein swyddogion trin hawliadau mewn sefyllfa i wneud penderfyniad ar sail atebolrwydd cyfreithiol y Cyngor.

Os penderfynir nad oes dim atebolrwydd cyfreithiol, ac y gwrthodir eich hawliad, cewch lythyr yn esbonio pam.

Os derbynnir atebolrwydd cyfreithiol bydd y swyddogion trin hawliadau'n gwneud cynnig ysgrifenedig o iawndal i chi, a fydd yn adlewyrchu'n gywir lefel briodol o iawndal yn yr amgylchiadau ac a fydd o bosibl yn cynnwys didyniad am werth uwch, oed, traul ac esgeuluster cyfrannol.

Twyll

Rydym yn cymryd mater hawliadau twyllodrus o ddifrif, ac os canfyddwn y rhoddwyd gwybod am unrhyw hawliad yn dwyllodrus neu y cafodd ei chwyddo mewn unrhyw ffordd wrth brosesu'r hawliad neu wedyn, mae'n bosibl y caiff y papurau eu trosglwyddo i'r Heddlu a/neu Wasanaeth Erllyn y Goron er mwyn i achos troseddol gael ei ddwyn.

Hysbysiadau Pwysig

Hysbysiad Preifatrwydd

Caiff unrhyw ddata a ddarperir eu prosesu yn unol â chyfreithiau diogelu data a phreifatrwydd, ac wrth roi'r data hyn rydych yn cydsynio i'r Cyngor eu prosesu at ddibenion ymchwilio i'ch hawliad yswiriant ac atal twyll. Caiff yr holl wybodaeth bersonol ei thrin yn gwbl gyfrinachol a dim ond yn gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw y caiff ei defnyddio gan y Cyngor neu ei datgelu i eraill.

Fel corff cyhoeddus, mae dyletswydd ar y Cyngor i ddiogelu arian cyhoeddus, ac o gofio hyn mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i rhoi ar y ffurflen hon, a thrwy gydol yr hawliad, i atal a chanfod twyll. Er enghraifft, mae'n bosibl y byddwn yn rhannu'ch data ag adrannau eraill yn y Cyngor mewn ymgais i atal twyll budd-daliadau neu Dreth y Cyngor, neu'n rhannu'r wybodaeth yn yr hawliad hwn â chyrrff cyhoeddus eraill, er enghraifft, cynghorau eraill, yr Heddlu neu Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Diogelu Data

Caiff unrhyw ddata a ddarperir eu prosesu yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ac wrth roi'r data hyn rydych yn cydsynio i'r Cyngor eu prosesu at y diben y'u rhoddwyd. Caiff yr holl wybodaeth bersonol ei thrin yn gwbl gyfrinachol a dim ond at ddiben cyfreithlon y caiff ei defnyddio gan y Cyngor neu ei datgelu i eraill.

Twyll Yswiriant a Diogelu Data

Mae cwmnïau yswiriant yn cadw nifer o gofrestri gwrth-dwyll a gwrth-ladrad i'w helpu i wirio gwybodaeth ac atal hawliadau twyllodrus. Mae'n bosibl y bydd y Cyngor, ei yswirwyr, cyfreithwyr neu swyddogion trin hawliadau yn chwilio'r cofrestri hyn fel rhan o'u hymchwiliadau, ac yn trosglwyddo gwybodaeth ynghylch y digwyddiad hwn i'r cofrestri priodol, i bartion eraill gael edrych arni yn y dyfodol er mwyn atal twyll.

Gellir gweld manylion llawn ein Hysbysiadau Preifatrwydd yn:

<https://www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Privacy-notices?lang=cy-gb>

Mae gennych yr hawl i ofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol ar unrhyw gam wrth i'ch hawliad gael ei brosesu

**Cadwch y nodiadau cyfarwyddyd hyn er mwyn edrych arnynt yn y dyfodol
Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg hefyd.**

LINRF-SAR/11/17



FFURFLEN RHOI GWYBOD AM DDIGWYDDIAD ATEBOLRWYDD

Er mwyn i hawliad lwyddo, rhaid ichi brofi y cafodd yr anaf/difrod ei achosi trwy fai'r Cyngor. Edrychwch ar y nodiadau cyfarwyddyd ar ddechrau'r ffurflen hon. Ar ôl ei llenwi, anfonwch y ffurflen hon gyda thystiolaeth lawn a ffotograffau i'r Adran Yswiriant a Risg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7PG.

MANYLION YR HAWLYDD	
Enw llawn: (Mr/Mrs/Miss)	Dyddiad geni:
Cyfeiriad:	Rhif Yswiriant Gwladol:
	Galwedigaeth:
	Manylion cyflogwr:
Cod post:	
Rhif ffôn:	

Y DIGWYDDIAD	
Math o ddigwyddiad (rhowch gylch) :	Anaf personol
	Difrod i eiddo
	Difrod i gerbyd
Dyddiad y digwyddiad:	Amser :
Union leoliad:	
Adeilad/cyffordd/rhif colofn golau agosaf:	
Y tywydd (rhowch gylch) :	Sych Gwlyb Eira Iâ Glaw
	Golau dydd Cyfnos Nos
	Clir Heulog Niwlog Niwl trwchus
Esboniwch YN LLAWN sut y digwyddodd y difrod/colled/anaf:	
Cynllun bras o'r digwyddiad (os yw'n berthnasol):	

ATEBOLRWYDD	
Rhowch resymau pam yr ydych yn barnu bod y Cyngor hwn yn gyfrifol:	
Ydych chi'n ymwybodol y rhoddwyd gwybod i'r Cyngor am y nam hwn o'r blaen?	Ydw / Nac ydw
Os ydych, pryd ac i bwy y rhoddwyd gwybod amdano?	
Ydy'r nam wedi cael ei atgyweirio eisoes?	Ydy / Nac ydy
A gafodd unrhyw ddifrod i'ch cartref neu eiddo ei achosi gan contractwr i'r Cyngor?	Do / Naddo
Os do, rhowch fanylion y contractwr:	

Nodwch y bydd unrhyw hawliadau, lle'r oedd contractwr i'r Cyngor yn gysylltiedig â nhw, yn cael eu trosglwyddo i'r contractwr er mwyn iddo ymdrin â'ch hawliad yn uniongyrchol gyda chi. Ticiwch y blwch hwn i gadarnhau eich bod yn fodlon i fanylion eich hawliad gael eu trosglwyddo i'r contractwr.

MANYLION TYSTION
Tyst 1:
Tyst 2:
Tyst 3:

ANAF PERSONOL	
Disgrifiwch yr anafiadau a gafwyd yn y digwyddiad:	
Ydych chi wedi ymgynghori â'ch meddyg teulu?	Ydw / Nac ydw
Enw'r meddyg: Cyfeiriad: Cod post:	
Aethoch chi i'r ysbyty ar ôl y digwyddiad?	Do / Naddo
Aethpwyd â chi i'r ysbyty mewn ambiwlans?	Do / Naddo
Enw'r ysbyty: Cyfeiriad:	
Enw'r meddyg ymgynghorol a roddodd y driniaeth:	
Ydych chi'n dal i gael triniaeth?	Ydw / Nac ydw
Ydych chi i ffwrdd o'r gwaith ar hyn o bryd o ganlyniad i'ch anafiadau?	Ydw / Nac ydw

Os ydych wedi cael eich anafu o ganlyniad i'r ddamwain, bydd angen cael tystiolaeth feddygol. Anfonir ffurflen atoch i ganiatáu i ni, ein swyddogion trin hawliadau/yswirwyr/cyfreithwyr gael gweld eich cofnodion meddygol, er mwyn inni asesu gwerth eich anafiadau'n gywir. Mae'n bosibl y bydd angen ichi gael archwiliad gan feddyg teulu, ysbyty neu feddyg ymgynghorol er mwyn i adroddiad meddygol-gyfreithiol gael ei ysgrifennu. Gall y broses hon gymryd nifer o fisoedd a bydd yn dibynnu ar yr amser ymadfer ar gyfer eich anafiadau.

HAWLIAD DIFROD I EIDDO				
Dyddiad y'i prynwyd neu y'i cafwyd	Disgrifiad o'r eitem a ddifrodwyd neu a gollwyd (Darparwch ffotograffau o'r eitemau a ddifrodwyd ynghyd â derbynebau neu brawf o bryniant)	Pris cost gwreiddiol	Gwerth ar adeg y golled (gan ganiatáu ar gyfer oed a thraul)	Cost atgyweirio / cael eitem arall (angen dau amcanbris)
Oes gennych chi yswiriant rhag anaf/colled neu ddifrod o'r math hwn? (Efallai y bydd yn fwy buddiol ichi hawlio trwy'ch polisi yswiriant eich hun am unrhyw ddifrod i gynnwys eich cartref, gan fod hawliadau fel arfer yn cael eu setlo ar sail newydd yn lle hen, a gall yr yswiriwr geisio adennill ei golledion oddi wrthym ni ar eich rhan os yw'n barnu bod atebolrwydd gan y Cyngor. Edrychwch ar eich llyfryn polisi i weld yr hyn mae'ch yswiriwr cynnwys cartref yn ei yswirio.)		OES / NAC OES		
Enw a chyfeiriad yr yswiriwr:		Rhif y polisi:		
Rhif cofrestru'r cerbyd:		Gwneuthuriad a model:		
Blwyddyn:		A roddwyd gwybod i'r yswiriwr? Do / Naddo		

Ticiwch y blychau isod i gadarnhau'r canlynol:

- Rwyf i / Rydym ni yn deall bod dyletswydd ar y Cyngor, fel corff cyhoeddus, i ddiogelu arian cyhoeddus, ac o gofio hyn, rwyf i / rydym ni yn deall y bydd y Cyngor o bosibl yn defnyddio neu'n rhannu'r wybodaeth rwyf i / rydym ni wedi'i rhoi ar y ffurflen hon, a thrwy gydol yr hawliad, yn fewnol gydag adrannau eraill yn y Cyngor i ganfod ac atal twyll.
- Rwyf i / Rydym ni yn deall y caiff unrhyw ddata a ddarperir eu prosesu yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ac, wrth roi'r data hyn, rwyf i / rydym ni yn deall y bydd y Cyngor yn eu prosesu at y diben y'u rhoddwyd.
- Rwyf i / Rydym ni yn deall bod cwmnïau yswiriant a thrydydd partion perthnasol eraill yn cadw nifer o gofrestri gwrth-dwyll a gwrth-ladrad i'w helpu i wirio gwybodaeth ac atal hawliadau twyllodrus. Rwyf i / Rydym ni yn deall ei bod yn bosibl y bydd y Cyngor, ei yswirwyr, cyfreithwyr neu swyddogion trin hawliadau yn sgrinio hawliadau gan ddefnyddio'r cofrestri hyn fel rhan o'u hymchwiliadau, ac yn rhannu gwybodaeth bersonol ynghylch y digwyddiad hwn â'r cwmnïau hyn, i bartion eraill gael edrych arni yn y dyfodol er mwyn atal twyll.
- Rwyf i / Rydym ni yn deall ei bod yn bosibl y bydd unrhyw hawliadau twyllodrus ac/neu wedi'u chwyddo yn cael eu trosglwyddo i'r heddlu ac, os canfyddir bod yr hawliad yn dwyllodrus neu wedi'i chwyddo mewn unrhyw ffordd, y byddaf i / byddwn ni o bosibl yn agored i erlyniad troseiddol.
- Rwyf i / Rydym ni yn datgan bod y manylion a roddir ar y ffurflen hon yn wir ac yn gyflawn.

Llofnod:

Dyddiad: